## COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfeiriad Strategol

**Dyddiad y penderfyniad:**

16 Mawrth 2021

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

16 March 2021

**Penderfyniad:**

Addewid Dim Hiliaeth Cymru

Bod y Cyngor yn addo ei gefnogaeth i Ddim Hiliaeth Cymru a bod y penderfyniad dirprwyedig hwn yn cael ei weithredu'n syth.

**Bwriad y penderfyniad:**

Mae disgrifiad o'r fenter Dim Hiliaeth Cymru ar gael yma https://zeroracismwales.co.uk/?lang=cy. Mae'n ddatganiad pwysig o egwyddor i sefydliadau yng Nghymru ac yn dangos nad yw sefydliadau'r sector cyhoeddus yn arbennig yn fodlon goddef hiliaeth mewn unrhyw ffurf.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cydlynu'r gwaith i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru i gytuno i'r addewid ac er mwyn cynyddu effaith hyn, gofynnwyd i bob addewid gael ei wneud erbyn 20 Mawrth. Mae'r penderfyniad hwn yn cael ei weithredu yn syth i gyrraedd y dyddiad terfynol hwn.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

Trwy addo ein cefnogaeth i'r fenter hon, mae'r Cyngor yn cyhoeddi eu safle mewn ffordd gadarnhaol.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim cysylltiad i'w ddatgan.

**Ymgynghoriad:**

Ymgynghorwyd â phob Aelod ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor ar y penderfyniad dirprwyedig hwn.

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.